

# Siarter Myfyrwyr 2026-2027

Prifysgol Wreccsam  
Wrexham University



**Ym Mhrifysgol Wreccsam ein bwriad yw cael ein cydnabod am ddarparu profiad sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr gwyb, gan greu cyfleoedd sy'n ysbrydoli a galluogi i'r holl fyfyrwyr ddod yn raddedigion hyderus, cyflogadwy sy'n creu traweffaith bositif ar eu cymdeithas.**

***Rydym wedi ein hymrwymo i:***

- Creu cymuned academiaidd sy'n croesawu myfyrwyr o bob cefndir, gan osod myfyrwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn ac sy'n eu paratoi at fywyd, gwaith a llwyddiant wrth ddod yn ddinasyddion byd-eang llwyddiannus.
- Darparu profiad dysgu ac addysgu anhygoel sy'n ystyriol, yn gynhwysol ac sy'n cefnogi lles, hyder a chyflawniad myfyrwyr.
- Darparu cwricwlwm rhyngddisgyblaethol, yn seiliedig ar brofiad a heriau, sy'n darparu dysgu yn y byd go iawn gan baratoi graddedigion ar gyfer cyflogaeth a'u dyfodol.
- Darparu ymchwil a chysiau proffesiynol yn seiliedig ar arfer ac sydd wedi'u darparu drwy weithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr a chyflogwyr.
- Darparu cyfleoedd dysgu hyblyg gydol oes a datblygu graddedigion sy'n entrepreneuraidd hyderus
- Darparu amgylcheddau sy'n grymuso myfyrwyr i gyflawni rhagoriaeth academiaidd a ffynnu yn eu gyrfaedd.

**Mae ein Siarter Myfyrwyr, sydd wedi'i datblygu ar y cyd gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, yn rhan bwysig o'r ffordd rydym yn sefydlu a chynnal disgwyliadau clir y ddwy ochr ar gyfer profiad myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Mae'n nodi beth allwn ei ddisgwyl gan ein gilydd fel partneriaid mewn cymuned ddysgu a hynny ym mha bynnag gampws, sefydliad partner neu fodd astudio.**

### ***Eich astudiaethau***

Gan weithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr, bydd Prifysgol Wreccsam yn sicrhau bod ganddi gymuned broffesiynol, gynhyrchiol gyda dysgu cadarnhaol lle mae gan fyfyrwyr y cyfle i ddatblygu eu huchelgeisiau o ran gyrfa a chyflawni eu potensial academiaidd.

### ***Fel Prifysgol byddwn yn:***

- Darparu safonau dysgu ac asesu uchel priodol, arweiniad academiaidd priodol a chwricwlwm hyblyg, wedi'i ddiweddarau sy'n cael ei arwain gan ymchwil.
- Darparu cymuned, gan alluogi myfyrwyr i ymgysylltu gydag ystod eang o gyfleoedd dysgu drwy broses adfyfyriol, ddatblygiadol, lle gallant fel myfyrwyr ac, yn ddiweddarach, graddedigion, geisio datblygu a mynegi mewn modd effeithiol eu nodweddion personol, agweddau, profiadau a sgiliau, gan eu paratoi ar gyfer cyflogaeth, astudiaethau ôl-raddedig a llwyddiant estynedig yn y dyfodol.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr wrth gynllunio a gweithredu rhaglenni dysgu.
- Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr i astudio, ymgymryd ag ymchwil a chael mynediad at gefnogaeth i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer symudiadau rhyngwladol sy'n hygyrch ac arloesol gan alluogi cyfleoedd i astudio

dramor, ac ar raglen gyfnewid, gan greu cymuned ryngwladol hyfyw a deinamig ym Mhrifysgol Wreccsam ar y campws a thramor, gan fanteisio ar ariannu gan y llywodraeth e.e. Taith a Turing

- Darparu cyfle i ymgysylltu mewn dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith, drwy amrywiaeth o brofiadau o fewn y cwricwlwm a phrofiadau all-gwricwlaidd, gan gynnwys lleoliadau a chyfleoedd o fewn y sector diwydiant, gan gynnwys gwirfoddoli.
- Darparu profiad myfyriwr estynedig drwy fuddsoddiad parhaus yn ein cyfleusterau, adnoddau dysgu ac amgylchedd dysgu addysgol.
- Darparu tiwtor personol neu fecanwaith cyfatebol er mwyn rhoi cyfle i chi drafod eich cynnydd academiaidd, eich cyfeirio at gefnogaeth arbenigol ac annog profiadau dysgu a chyfleoedd ehangach er mwyn gwella eich astudiaethau a datblygiad sgiliau cyflogadwyedd. Galluogi dysgwyr i dyfu mewn hyder a datblygu ymdeimlad cryf o'r hunan fel dysgwyr galluog ac annibynnol sy'n barod ar gyfer llwyddo yn y dyfodol yn eu gyrfaedd.
- Gosod dyddiad cau eglur ar gyfer darparu adborth ar waith academiaidd.
- Darparu cyfleoedd i ddatblygu arferion moesegol a chynaliadwy drwy adeiladu cyfleoedd yn rhan o gynllunio'r cwricwlwm. Cynnwys lleihau gwastraff ac ôl-troed carbon.
- Darparu gwasanaethau cefnogi hygyrch, cynhwysol o safon sy'n galluogi myfyrwyr i ddelio gyda gwahaniaethau, sefyllfaoedd neu broblemau y gallant fod yn eu hwynebu sy'n cael effaith ar allu myfyriwr i astudio. Byddwn yn grymuso myfyrwyr i gael mynediad at y cynnig mwyaf addas o ran cefnogaeth ar gyfer eu hanghenion presennol.

### ***Fel myfyriwr, byddaf yn:***

- Cymryd cyfrifoldeb dros reoli fy nysgu annibynnol fy hun ac ymgysylltu'n rhagweithiol yn fy rhaglen.

- Ymgysylltu ym mhob sesiwn dysgu ac addysgu, gan gynnwys sesiynau cydamserol, anghydamserol ac wyneb yn wyneb, tiwtorialau personol, seminarau a chyfarfodydd gyda thiwtoriaid.
- Mynychu arholiadau a chyflwyno gwaith ar amser, gan wneud defnydd llawn o adborth, canllawiau a chynghor.
- Darllen fy llawlyfr cwrs a modiwl, fydd ar gael ei mi ar y VLE a pharatoi ar gyfer sesiynau dysgu ac addysgu a darllen testunau gosod ymlaen llaw.
- Ymgysylltu gyda rôl disgybl tiwtoraidd personol neu ddull tebyg gan gynnwys adfyfrio ar gynnydd academiaidd, mynychu tiwtorialau academiaidd a chyfrannu'n rhagweithiol mewn tiwtorialau personol a gweithredu ar y cynghor a roddwyd.
- Chwilio'n rhagweithiol am gefnogaeth a all fod o fudd i mi drwy gydol fy astudiaethau. Ymgysylltu gyda'r timau gwasanaethau cefnogi myfyrwyr priodol sy'n gallu cefnogi fy astudiaethau a rhoi cynnig ar y mecanweithiau rhagweithiol maent yn eu hawgrymu.
- Dysgu cymaint ag y gallaf ynghylch y cyfleusterau, yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael ei mi yn fy mhrifysgol ac ymgysylltu bob amser mewn ffordd broffesiynol gyda thimoedd academiaidd a gwasanaethau proffesiynol sydd yno i gefnogi fy nhaith ddysgu. Byddai cyfeirio at y canlynol am wybodaeth yn fan cychwyn da:
  - Canllawiau Myfyrwyr
  - Tudalennau Eich Cwrs ar y VLE
  - [Tudalen Lanio ASK](#)
  - Mewnwyd Myfyrwyr (<https://students.wrexham.ac.uk>)
  - [Canolfan Gyngori Undeb y Myfyrwyr](#)
- Cydymffurfio gyda holl [reoliadau, polisïau a gweithdrefnau](#) y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr ac ymddwyn fel aelod

cyfrifol o gymuned y Brifysgol.

- Cadw at bolisiau a gweithdrefnau'r sefydliad partner drwy yr un y bu i mi gofrestru fel myfyriwr y Brifysgol.
- Cynnal fy astudiaethau academiaidd mewn ffordd onest a phroffesiynol.

### ***Bydd Undeb y Myfyrwyr yn:***

- Cyflogi swyddogion myfyrwyr etholedig amser llawn er mwyn hyrwyddo llais y myfyriwr ar draws pob lefel o wneud penderfyniadau yn y brifysgol, gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u hymgysylltu â hwy ynghylch materion sy'n effeithio ar eu haddysg a'u profiad.
- Cefnogi gweithgareddau sy'n gwella sgiliau all-gwricwlaidd myfyrwyr a chyfrannu at eu sgiliau cyflogadwyedd a datblygiad personol.

## ***Fframwaith Dysgu Gweithredol (ALF)***

Mae'r Brifysgol yn defnyddio Fframwaith Dysgu Gweithredol (ALF) Prifysgol Wrecsam, sef cyfres o egwyddorion ar gyfer addysgu a dysgu a ddatblygwyd gan ein prifysgol ar gyfer ein prifysgol. Mae'r egwyddorion hyn yn arwain ein hagweddau tuag at ddysgu, gan gynnwys ein hagweddau tuag at gynnwys, cyflawniad ac asesiad eich modiwlau, a sut rydym yn eich cefnogi ac yn ymgysylltu gyda chi. Bydd yr holl fyfyrwyr ym Mhrifysgol Wrecsam yn gweithio o fewn tair egwyddor:

- o **Ymgysylltu â myfyrwyr** - mae gweithgareddau dysgu yn cefnogi ymgysylltu gweithredol a chreadigol gyda myfyrwyr yn ogystal ag ymdeimlad o berthyn.
- o **Dysgu hyblyg a hygyrch** - gall gweithgareddau dysgu gael eu cyrchu gan unrhyw un sydd angen gwneud hynny, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu penodol.
- o **Asesiad arloesol, hyblyg a hygyrch** - mewn amrywiaeth o ffyrdd y gall myfyrwyr ddangos dysgu a dealltwriaeth.



Yn hanfodol, wrth graidd ALF mae'r defnydd priodol o dechnolegau digidol ar draws pob agwedd ar addysgu, dysgu ac asesu er mwyn cefnogi arfer gweithredol, hygyrch, hyblyg a chynhwysol. Mae'r cyfuniad dysgu (ALF) yn galluogi profiad dysgu hyblyg a hygyrch ar eich cyfer sy'n gallu cael ei addasu'n hawdd os yw agweddau ar ddysgu ar y campws yn cael eu cyfyngu am unrhyw reswm.

Mae ALF yn cynnwys dysgu cydamserol (dysgu mewn amser real) a chyfleoedd dysgu anghydamserol (gan gyrchu deunyddiau cwrs sy'n cael eu datblygu ymlaen llaw), a bydd gennych sesiynau sydd wedi'u hamserlennu ar y campws dros dri diwrnod yn yr wythnos. Mae Amgylchedd Dysgu Rhithiol Moodle (VLE) yn eich galluogi chi i gael mynediad at ddysgu oddi allan i'r sesiynau ystafell ddosbarth sydd wedi'u hamserlennu. Mae yna ddisgwyliad a chyfrifoldeb i chi ymgysylltu ym mhob agwedd o'r cyfuniad dysgu, a fydd yn sicrhau eich bod yn rhoi'r cyfle mwyaf ar gyfer llwyddo yn eich astudiaethau.

Yr hyn sy'n allweddol i ALF yw ei fod yn ymgorffori ffyrdd o ddysgu ac addysgu sy'n **creu ac yn cefnogi ymdeimlad o berthyn** i fyfyrwyr. Byddwch hefyd yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig sy'n eich ymgysylltu gyda'ch carfan mewn mannau mwy cymdeithasol.

## ***Eich Llwyddiant yn Eich Gyrfa:***

Mae'r Brifysgol yn ysbrydoli a galluogi myfyrwyr i ddod yn raddedigion hyderus cyflogedig sy'n creu traweffeithiau cadarnhaol ar y gymdeithas. Rydym yn darparu myfyrwyr gyda sgiliau datblygu gyrfa a chyflogadwyedd, profiadau a chyfleoedd i gefnogi eu deilliannau o ran gyrfa. Caiff hyn ei wneud o fewn pob rhaglen astudio a drwy amrywiaeth eang o gyfleoedd all-gyrsiol sy'n seiliedig ar [Fframwaith Sgiliau'r Brifysgol](#).

Prif bwrpas Fframwaith Sgiliau'r Brifysgol yw paratoi pob myfyriwr er mwyn cyflawni eu dyheadau o ran gyrfa a'u potensial proffesiynol. Wedi'i fewnosod i mewn i raglenni mae Fframwaith Sgiliau'r Brifysgol yn cefnogi'r gymuned ddysgu drwy bartneriaeth rhwng dysgwyr, academyddion, cydweithwyr cefnogaeth broffesiynol a diwydiant, gan roi'r paratoad gorau posib i fyfyrwyr symud ymlaen mewn cyflogaeth, hunangyflogaeth, creu mentrau newydd a/neu thrwy fynd ar ôl astudiaeth bellach.

Mae'r [Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyaeth](#) yn darparu cefnogaeth, adnoddau a chyfleoedd gwaith proffesiynol arbenigol, sydd ar gael bedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos ar gyfer darparu myfyrwyr, myfyrwyr cyfredol, a graddedigion drwy ein [Porth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd](#). Rydym yn gweithio gyda Chyflogwyr, Recriwtwyr a Gwasanaethau Gwirfoddol er mwyn darparu myfyrwyr gyda chyswllt uniongyrchol at gyfleoedd datblygu gyrfa a llwyddiant mewn gyrfa.

Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo yn llwyddiant ein graddedigion. Yn Arolwg canlyniadau Graddedigion 2024:

- roedd 87% o raddedigion Prifysgol Wrecsam mewn gwaith neu astudiaeth bellach 15 mis ar ôl graddio.
- roedd hi'r 3ydd yng Nghymru ar gyfer y gyfran o raddedigion mewn gwaith cyflogedig.
- roedd graddedigion Prifysgol Wrecsam wedi cyflawni enillion cyfartalog o £28,000 (pob ymatebwr mewn gwaith).

## ***Cyfathrebu gyda'i gilydd***

Mae'r Brifysgol yn gwasanaethu ei rhwymedigaethau cytundebol i fyfyrwyr a bydd yn cydymffurfio gyda'i hymrwymyiadau o dan gyfraith masnachu fel yr amlinellir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. O wneud hynny, byddant yn gweithio i amddiffyn buddiannau myfyrwyr wrth ymateb i amgylchiadau megis newidiadau arwyddocaol i sut mae cwrs yn cael ei ddarparu neu ei gau. Mae gan y Brifysgol weithdrefnau yn eu lle er mwyn ymateb i'r amgylchiadau hyn a fydd yn lliniaru'r traweffaith posib arnoch chi, ac sy'n cydnabod yr anghenion gwahanol sydd gan amrywiaeth ein myfyrwyr.

## ***Fel Prifysgol byddwn yn:***

- Darparu, cyn cofrestru ac yn cyhoeddi gwybodaeth eglur ar diwtora'r cwrs [ffioedd ac ariannu](#) ac unrhyw gostau cwrs gorfodol cysylltiedig, ynghyd ag opsiynau a dyddiadau cau taliadau, a (lle mae'n bosib) rhyw syniad o'r costau ar gyfer eitemau opsiynol, yn unol gyda chanllawiau gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnata - cyfeiriwch os gwelwch yn dda at y rheoliadau Ffioedd Tiwtora ar ein gwefan ac ar dudalennau cwrs unigol - [wrexham.ac.uk](http://wrexham.ac.uk)
- Darparu gwybodaeth eglur am gwrs astudio myfyriwr sy'n rhoi manylion ynghylch gwybodaeth benodol ynghylch prif gysylltiadau, gofynion darparu rhaglen ac asesu.
- Gosod dyddiad cau eglur ar gyfer darparu adborth ar waith academiaidd.
- Rhoi rhybudd ymlaen llaw ynghylch amserlen y myfyriwr ac unrhyw newidiadau iddi.
- Galluogi myfyrwyr i ryngweithio gyda'r Brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyfathrebu gyda myfyrwyr mor gyflym ac effeithiol â phosib.
- Diogelu'r holl wybodaeth bersonol a ddarperir, yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o sut i fynegi pryderon neu unrhyw beth sy'n eu poeni, p'un a yw hynny'n

gysylltiedig gyda'u hastudiaethau academiaidd neu amgylchiadau personol a allai fod yn cael traweffaith ar eu gallu i ymgysylltu gyda'u hastudiaethau.

### ***Fel myfyriwr, byddaf yn:***

- Sicrhau fy mod wedi datgelu'r holl wybodaeth sydd ei angen er mwyn cwblhau fy astudiaethau a sicrhau bod fy holl fanylion personol yn cael eu cadw'n gyfredol.
- Gwirio fy e-byst Prifysgol yn rheolaidd ac ymateb mewn ffordd amserol i gyfathrebiadau'r Brifysgol, yn arbennig felly y rhai sy'n gysylltiedig gyda fy nghanlyniadau a chynnydd.
- Sicrhau fy mod yn ymwybodol o delerau ac amodau fy astudio yn y Brifysgol, a fy mod yn deall ac yn cydymffurfio gyda hwy.

### ***Bydd Undeb y Myfyrwyr yn:***

- Sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn cyfathrebiadau eglur, gonest ac agored sy'n berthnasol iddynt hwy.
- Gweithredu'n ddemocrataidd ac yn dryloyw yn unol â'i Gyfansoddiad a Rheoliadau.

Nodwch os gwelwch yn dda: Dylai myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner gyfeirio at y wefan a phorth dysgu'r sefydliad lle mae'r dysgu'n digwydd.

### ***A Wyddoch Chi?***

Mae Gwasanaethau TG sydd wedi'u lleoli yn adeilad y Llyfrgell a Chefnogi Myfyrwyr yn gallu eich cefnogi chi gyda chysylltu eich e-bost myfyriwr gyda'ch un personol.

Gallwch ddiweddarau eich manylion personol waeth ble fo'ch lleoliad astudio ar eich cofnod myfyriwr drwy glicio [MyUni portal](#).

## ***laith a Diwylliant Cymru/Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg***

Mae Prifysgol Wreccsam wedi ymrwymo i ehangu ei darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Brifysgol yn falch o'i gwreiddiau Cymreig ac yn cydnabod pwysigrwydd adlewyrchu iaith a diwylliant gogledd-ddwyrain Cymru. Fel dinas fwyaf newydd Cymru rydym yn falch o annog ein holl fyfyrwyr i ymgysylltu gyda digwyddiadau diwylliannol Cymru megis yr Eisteddfod Genedlaethol a Focus Wales.

Rydym wedi ymrwymo i'n partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol - sefydliad cenedlaethol sydd â rôl allweddol yn cynllunio, cynnal a datblygu addysg ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg. Cafodd Pennaeth Datblygiad Academaidd Cyfrwng Cymraeg ei phenodi ym mis Mai 2022 er mwyn gwella a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol. Mae'r swydd yn gweithredu fel pont rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Wreccsam er mwyn sicrhau datblygiad cyrsiau iaith Gymraeg ac er mwyn gwella'r gefnogaeth a'r cyfleoedd a gynigir i fyfyrwyr. Cafodd Strategaeth a Chynllun Academaidd cyfrwng Cymraeg sydd yn seiliedig ar genhadaeth strategol Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ei roi ar waith ym mis Tachwedd 2022, y cyntaf o'i fath.

Mae'r Brifysgol yn datblygu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac wedi ymrwymo i gynnig mwy o ddewis i fyfyrwyr sydd am astudio yma drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae modiwlau Cymraeg yn y Gweithle yn cael eu cynnig i'r holl fyfyrwyr fel llwybr. Mae'r modiwlau hyn wedi'u bwriadu i sicrhau bod graddedigion yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg o fewn cyd-destun proffesiynol dwyieithog. Mae'r modiwlau hyn yn cynnig cyd-destun cenedlaethol i Gymru ac i'r iaith Gymraeg. Er enghraifft, o fis Medi 2023, mae 40 credyd wedi bod ar gael ar bob lefel o'r rhaglen Therapi Iaith a Lleferydd a bydd hyn yn golygu y bydd myfyrwyr sy'n dilyn y credydau hyn yn gallu ymgeisio am ysgoloriaeth cymhelliant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

### ***Fel Prifysgol byddwn yn:***

- Galluogi myfyrwyr i gyflwyno asesiadau a derbyn adborth drwy gyfrwng y Gymraeg, waeth beth fo iaith y dysgu.
- Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg lle mae'n bosib - gall eich tîm rhaglen eich cynghori ynghylch hyn.
- Annog myfyrwyr Cymraeg i ddilyn 40 credyd a mwy drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn derbyn ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Cynnig hyfforddiant personol i fyfyrwyr Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau Cymraeg pellach drwy'r dosbarthiadau a modiwlau penodol, ac ar y cyd gyda swyddfa cangen Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol(<http://www.colegcymraeg.ac.uk/>), gan gynnwys eu Tystysgrif Sgiliau Iaith
- Sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 2011 a chymryd i ystyriaeth Safonau'r Iaith Gymraeg.
- Cynnig y cyfle i fyfyrwyr dderbyn gohebiaeth gan y Brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ysbrydoli myfyrwyr i chwilio am ffyrdd y gallant ddefnyddio a dangos eu sgiliau iaith Gymraeg yn eu llwybrau gyrfa yn y dyfodol.

## ***Eich Lles: Cefnogaeth a Lles***

Mae Prifysgol Wreccsam yn ceisio creu amgylchedd cefnogol ac mae gennym amrywiaeth o wasanaethau a thimoedd sy'n ymroddedig i gefnogi eich lles drwy gydol eich amser gyda ni. Gallwch ddysgu mwy am y cymorth sydd gennym i'w gynnig a'r digwyddiadau lles all-gyrsiol cysylltiedig mae'r Brifysgol yn eu cynnal drwy gydol y flwyddyn academaidd drwy'r ddolen hon.

Ein nod yw darparu ein staff a'n myfyrwyr gyda'r ddealltwriaeth, y sgiliau a'r profiadau i arwain bywydau bodlon, gwerth chweil a hapus gan anelu i rymuso ein myfyrwyr i gael mynediad at gefnogaeth sydd ar gael iddynt drwy gydol eu taith Prifysgol. Rydym yn meithrin diwylliant lle mae myfyrwyr yn gallu datgelu unrhyw anawsterau neu brofiadau maent yn eu cael, a bydd staff yn cefnogi'r myfyrwyr hyn i gael mynediad at adnoddau ar gyfer gwella eu lles a/neu warchod eu hastudiaethau.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb sydd â'r potensial i gyflawni o fewn addysgu uwch yn cael cyfle i wneud hynny, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, anabledd, rhywedd, hil neu gefndir cymdeithasol. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau ei bod yn bodloni ei chyfrifoldebau statudol ynghylch [cydraddoldeb](#), [amrywiaeth](#), diogelu, a nodweddion gwarchodedig fel y'u hamlinellir yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#).

## ***Prifysgol sy'n Wybodus am Drawma ac ACE***

Mae Prifysgol Wrecsam wedi gweithio'n agos â Hwb ACE Cymru i ddod y Brifysgol gyntaf sy'n ystyriol o TrACE. Mae hyn yn golygu y bydd diwylliant sy'n ystyriol o drawma yn cael ei ymgorffori drwy'r sefydliad cyfan, ochr yn ochr ag **ymrwymiad ehangu mynediad** a gwerthoedd rhagoriaeth, cynhwysiant, cydweithredu, trawsnewid a chynaliadwyedd.

Bydd myfyrwyr a staff yn cael eu meithrin er mwyn ffynnu mewn amgylchedd cefnogol a pherthynol sy'n cydnabod cryfderau ac yn hyrwyddo llesiant. Mae gwaith caled yn mynd ymlaen y tu ôl i'r lle er mwyn gwau arfer sy'n wybodus o ran trawma i mewn i'r brifysgol er mwyn sicrhau bod yna ddealltwriaeth y gall trawma ac adfyd effeithio ar unrhyw un mewn amrywiol gyd-destunau (unigol, teulu, cartref, cymuned, amgylcheddol ac ati). Bydd ymatebion i drawma'n cynnwys caredigrwydd a thosturi a chymerir camau rhagweithiol er mwyn osgoi achosi trawma neu ail-gyflwyno trawma i unigolion. Mae hon yn daith ac rydym yn dysgu mwy ac yn adfyfrio wrth i ni fynd rhagddi. Mae cyfleoedd i chi gymryd rhan yn y gwaith hwn, er enghraifft dod yn hyrwyddwr TrACE ac i ddysgu i arwain gyda chysylltiad a chwilfrydedd ysgafn. Gall hyn ddigwydd o'r eiliad y byddwch yn camu drwy'r drysau ar eich diwrnod cyntaf i'r adeg y byddwch yn mentro allan i gyflogaeth fel un o'n graddedigion.

Dolen at animeiddiad Llywio'r Storm (Cymraeg): <https://www.youtube.com/watch?v=3ucTbxX083g>

Dolen at animeiddiad Navigating the Storm (Saesneg): <https://www.youtube.com/watch?v=uFSsE2qOnuw>

### ***Fel Prifysgol byddwn yn:***

- Sicrhau bod amrywiaeth o wahanol fathau o gefnogaeth ar gael drwy ein Timoedd Myfyriwr a Bywyd Campws i ddarparu mynediad llawn i chi. Bydd y gwasanaethau hyn yn hygyrch, yn ymatebol ac yn gynhwysol a byddant yn cefnogi myfyrwyr drwy gydol eu taith Prifysgol.
- Sicrhau bod pob myfyriwr yn cael tiwtor personol neu gyfatebol waeth beth fo cyfrwng eu dysgu.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag Undeb y Myfyrwyr i ddarparu ymgyrchoedd a mentrau o safon uchel sy'n cefnogi iechyd a lles myfyrwyr.
- Sicrhau amgylchedd saff a diogel yn unol â safonau Iechyd a Diogelwch a chyfrifoldebau diogelu.
- Darparu cyngor a gwybodaeth er mwyn helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu hariannu neu i gael mynediad at gefnogaeth ychwanegol pan maent yn profi amgylchiadau nad oedd modd iddynt eu rhagweld sy'n cael traweffaith ar eu sefyllfa ariannol. Mae'r gefnogaeth yma ar gael drwy'r tîm Ariannu a Chyngor Ariannol.
- Darparu cyngor gyrfaoedd ac arweiniad diduedd sy'n cefnogi lles myfyrwyr.

### ***Fel myfyriwr, byddaf yn:***

- Rhoi gwybod i'r Brifysgol ynghylch unrhyw absenoldebau, amgylchiadau anghenion neu gyfyngiadau a allai effeithio fy nghyfranogiad yn y Brifysgol, p'un a yw hynny'n bodoli eisoes neu'n newydd, er mwyn i ni allu eich cefnogi'n llwyddiannus.
- Bod yn ystyriol a pharchu sut y gall fy ymddygiad gael traweffaith ar eraill a thrin eraill yn gyfartal a chyda pharch, gan gymryd cydraddoldeb ac amrywiaeth o ddifrif, a chreu cymuned gynhwysol ar y campws.
-

- Ymgysylltu'n rhagweithiol gyda chefnogaeth sy'n briodol ar gyfer fy anghenion a chyfathrebu anawsterau y gallaf fod yn eu hwynebu fel y gall y Brifysgol gynnig cefnogaeth briodol.

### ***Bydd Undeb y Myfyrwyr yn:***

- Darparu ymgyrchoedd perthnasol a defnyddiol mewn perthynas ag iechyd a lles a rhoi gwybod i chi am eich hawliau fel myfyrwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau myfyrwyr i sicrhau bod anghenion myfyrwyr yn cael eu bodloni.
- Darparu cyngor cyfrinachol a defnyddiol am ddim drwy ein hadran Cyngor i Fyfyrwyr - mae hyn yn cynnwys myfyrwyr mewn sefydliadau partner. Cysylltwch â ni yn [SUAdvice@wrexham.ac.uk](mailto:SUAdvice@wrexham.ac.uk).
- Darparu cefnogaeth i fyfyrwyr drwy eu Swyddogion Sabothol ac aelodau o'r Cyngor Myfyrwyr.
- Darparu mentrau a chyfleoedd i fyfyrwyr ynghylch iechyd meddwl megis hyfforddiant Atal Hunanladdiad a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy adeiladu cymuned fyfyrwyr ddiogel, groesawgar sy'n hyrwyddo lles academiaidd a phersonol, a sicrhau bod pob myfyriwr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu cefnogi a'u grymuso i ffynnu
- Rhoi cyfle i fyfyrwyr greu, ymuno ac arwain cymdeithasau a chlybiau chwaraeon myfyrwyr.

## ***Cynrychiolaeth Effeithiol: Eich Llais***

Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo yn ei phartneriaeth gyda myfyrwyr gan weithio gyda'i gilydd i roi newid positif ar waith ar gyfer gwelliant parhaus ansawdd y dysgu a phrofiad myfyriwr ym Mhrifysgol Wreccsam.

### ***Fel Prifysgol byddwn yn:***

- Darparu dulliau o sicrhau adborth gan fyfyrwyr, megis UNITU, Modiwlau Gwerthuso Myfyrwyr (SEMAu), Fforymau Llais y Myfyriwr (SVF) ac arolygon cenedlaethol myfyrwyr megis yr Arolwg Canlyniadau Graddedigion, yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) ac Arolwg Profiad Ôl-raddedig a Addysgir (PTES).
- Darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad myfyriwr ym mhrosesau ansawdd a gwella'r Brifysgol.
- Cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr etholedig fel partneriaid llawn mewn prosesau gwneud penderfyniadau'r Brifysgol.
- Sicrhau bod cynrychiolaeth myfyrwyr yn rhan o bob lefel o fewn y Brifysgol lle bynnag y mae'n bosib.
- Ymateb yn rhagweithiol i adborth myfyrwyr gan sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol.

### ***Fel myfyriwr, byddaf yn:***

- Ymgysylltu gyda chynrychiolwyr Cwrs a chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr er mwyn iddynt gynrychioli eich safbwynt yn effeithiol a chywir.
- Cwblhau gwerthusiadau cwrs a modiwlau yn ôl y gofyn.
- Cymryd rhan mewn prosesau etholiadau Undeb y Myfyrwyr ar gyfer ethol cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr.

- Cymryd rhan yn yr holl ddulliau sicrhau adborth a ddefnyddir gan y Brifysgol, gan gynnwys UNITU, Modiwlau Gwerthuso Myfyrwyr (SEMAu), Arolwg Mewnwelediadau Profiad Digidol, cysylltu gyda chynrychiolwyr myfyrwyr er mwyn bwydo i'r Fforymau Llais y Myfyriwr (SVF) yn ogystal ag arolygon cenedlaethol megis yr Arolwg Canlyniadau Graddedigion, a'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS).

### ***Bydd Undeb y Myfyrwyr yn:***

- Hwyluso system cynrychiolydd cwrs led-led y Brifysgol yn effeithiol gan sicrhau bod cynrychiolwyr yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi.
- Cefnogi Swyddogion Sabothol a chynrychiolwyr myfyrwyr i gynrychioli'r myfyrwyr yn effeithiol ar holl bwyllgorau'r Brifysgol.
- Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr fod yn rhan o gynrychioli myfyrwyr eraill drwy'r Cyngor Myfyrwyr, Bwrdd Ymddiriedolwyr, cynadleddau a chyflwyno syniadau a damcaniaethau.
- Sicrhau system ethol dryloyw sy'n cael ei rheoli'n dda er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yn gallu cyfranogi'n llawn yn y broses o ddethol eu cynrychiolwyr.
- Sicrhau bod popeth rydym yn ei wneud yn sicrhau ein hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal a'n cymuned o fyfyrwyr amrywiol.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth ynghylch dod yn gynrychiolydd cwrs.

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth ynghylch etholiadau Undeb y Myfyrwyr.

[Cliciwch yma](#) i ddysgu mwy ynghylch Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y gallwch fod yn rhan o hyn, [cliciwch yma](#) er mwyn gweld Ymgysylltiad Myfyrwyr mewn Polisi Sicrwydd Ansawdd.

## ***Eich Pryderon: Gwneud pethau'n iawn***

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau profiad addysgol o safon uchel ar gyfer ei holl fyfyrwyr, wedi'u cefnogi gan wasanaethau a chyfleusterau cefnogi academiaidd, gweinyddol a lles priodol. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd rhai adegau lle nad yw myfyrwyr yn fodlon gyda'r cyfleusterau dysgu ac addysgu, neu'r gwasanaethau a ddarparwyd ac mae gennych hawl i wneud cwyn.

## ***Fel Prifysgol byddwn yn:***

- Sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at system effeithiol ar gyfer delio gyda chwynion heb fod yn ofni unrhyw edliw neu ragfarn annheg.
- Sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at y prosesau a chefnogaeth apeliadau academiaidd ac amgylchiadau esgusodol drwy gydol y broses.
- Darparu Gwybodaeth ynghylch sut a phryd y gallai myfyrwyr fod yn dymuno cysylltu gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol os nad ydynt yn fodlon gyda chanlyniad prosesau'r Brifysgol:  
<https://www.oiahe.org.uk/media/2264/intrototheoia-students-jan-2019.pdf>
- Darparu gwybodaeth ynghylch sut i wneud cwyn (os yw'n briodol) i [Medr: https://www.medr.cymru/cy/ar-gyfer-dysgwyr/](https://www.medr.cymru/cy/ar-gyfer-dysgwyr/)

### ***Fel myfyriwr, byddaf yn:***

- Dilyn gweithdrefnau'r Brifysgol yn gywir, gan ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol o fewn yr amserlenni y manylwyd arnynt.
- Gweithredu gyda pharch a chwarteisi os yn rhan o unrhyw weithdrefn sydd gan y Brifysgol.

### ***Bydd Undeb y Myfyrwyr yn:***

- Cynnig cyngor, cefnogaeth a chynrychiolaeth gyfrinachol a diduedd drwy unrhyw weithdrefnau apeliadau, cwynion neu gamymddwyn academiaidd.
- Sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar bob panel cwynion ac apeliadau gan sicrhau bod yr holl brosesau'n deg ac yn gyfiawn.
- Sicrhau cynrychiolaeth ar weithgorau'r Brifysgol wrth adolygu polisiau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr wrth galon y broses bob amser.

## ***Gwybodaeth Ddefnyddiol***

Dylech hefyd gyfeirio at Ganllawiau Myfyrwyr 2025-26 am wybodaeth ynghylch polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol a'ch llawlyfr rhaglen a modiwl ar y VLE ar gyfer gwybodaeth sy'n benodol i gwrs.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar y cyfleoedd a'r disgwyliadau a amlinellir yn y Siarter hwn drwy gysylltu gyda:

**Undeb y Myfyrwyr** – [Union@wrexham.ac.uk](mailto:Union@wrexham.ac.uk)

**Ansawdd a Rheoleiddio** – [Quality@wrexham.ac.uk](mailto:Quality@wrexham.ac.uk)

**Gweinyddu Myfyrwyr** – [Studentadministration@wrexham.ac.uk](mailto:Studentadministration@wrexham.ac.uk)

**Swyddfa Partneriaethau** - [partnershipsoffice@wrexham.ac.uk](mailto:partnershipsoffice@wrexham.ac.uk)

**ASK (Cefnogaeth i Fyfyrwyr)** - [ask@wrexham.ac.uk](mailto:ask@wrexham.ac.uk)

## ***Adolygu'r Siarter hon***

Adolygir y Siarter hon yn flynyddol mewn cydweithrediad gydag Undeb y Myfyrwyr a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd a'r Cyngor Myfyrwyr.

Anogir myfyrwyr i gysylltu gydag Undeb y Myfyrwyr i gyfranogi yn yr adolygiad nesaf ac er mwyn gwneud y gorau o draweffaith mwyaf y Siarter hwn, ceisir barn myfyrwyr drwy Fforymau Llais y Myfyrwyr a llwyfannau adborth ar-lein.